HELEDD FYCHAN AS

Plaid Cymru - Canol De Cymru

CYNNWYS

Allan yn y Gymuned •
Busnes y Senedd • Argyfwng Costau byw • Cysylltwch â ni

Dydd Gŵyl Dewi Hapus! Mae'r cylchlythyr yma'n gyfle i'ch diweddaru ar fy ngwaith a rai o'r materion rwyf wedi bod yn eu codi yn y Senedd ac ar draws y rhanbarth dros y mis diwethaf.

Mae'r argyfwng costau byw wedi bod yn ffocws allweddol i'r swyddfa ym mis Chwefror. Fe ddaethom a sefydliadau o ledled y rhanbarth ynghyd er mwyn trafod ffyrdd ymarferol gallwn ni helpu etholwyr. Fe wnaeth yr holl sefydliadau rannu eu bod nhw eisoes wedi gweld effaith cynnydd mewn costau ynni, tanwydd a bwyd ar bobl leol a gyda chymorth wedi cael ei dorri gan lywodraeth y DU, byddaf yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau cefnogaeth bellach i'r rhai sydd eisoes yn dioddef.

Ymysg y materion eraill rwyf wedi bod yn eu codi ar ran etholwyr y dros y mis diwethaf yw rhagor o gefnogaeth i gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd, mwy o arian ar gyfer gwasanaethau cymorth stelcian a dioddefwyr yn ogystal â chefnogi'r ddeiseb i achub Hen ysgol Ferched Bont-faen rhag cael ei dymchwel.

Allan yn y gymuned

Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau covid fis diwethaf, roedd yn wych cael mynd nôl allan i ymweld â sefydliadau lleol a chefnogi grwpiau cymunedol. Rhai o'r uchafbwyntiau mis diwethaf oedd mynychu lansiad partneriaeth yr Urdd ac Undeb Rygbi Cymru yn y stadiwm yn ogystal ag ymweld â fferm wynt Vattenfall i glywed am y prosiectau cymunedol y maent yn eu cefnogi yn y rhanbarth.

Y mis diwethaf, roeddem hefyd yn cael y pleser o allu cydweithio gyda chyngor ar Bopeth i gynnal ein cymhorthfa gyntaf. Canolbwyntiodd cymhorthfa mis Chwefror ar gyngor ynni, ond bydd thema newydd pob mis felly ddilyn fy nhudalennau cyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf.

Os hoffech i mi ymweld â grŵp neu fusnes yn eich ardal, neu os hoffech gael cyngor, cysylltwch â ni.

Protest Costau Byw

Ar y 19eg o Chwefror, ymunais gyda ymgyrchwyr ar strydoedd Caerdydd i brotestio'r argyfwng costau byw. Ynghyd â siaradwyr o Gynulliad Pobl Caerdydd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a nifer o'r undebau lleol, buom yn gorymdeithio tuag at adeiladau Nwy Prydain.

Mae'r argyfwng costau byw eisoes yn effeithio ar bobl ledled Cymru, gyda'r nifer o bobl sy'n defnyddio banciau bwyd wedi cynyddu'n sylweddol. Mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein cymunedau.

Yn gynharach yn y mis, cynhaliais uwchgynhadledd gyda sefydliadau sydd ar reng flaen yr argyfwng i drafod sut y gallwn gydweithio a dod o hyd i ddulliau ymarferol i helpu pobl leol. Darllenwch fwy yma.

Cefnogi cymunedau: Llifogydd

Roedd y 16eg o Chwefror yn nodi dwy flynedd ers Storm Dennis. Mis diwethaf, dim ond 1 adroddiad adran 19 ychwanegol (Treorci) gafodd ei gyhoeddi gan Gyngor RhCT gan ddod â'r cyfanswm i 10 gyda 9 arall dal heb eu cyhoeddi.

Rwyf i a fy nhîm wedi dychwelyd i'r cymunedau y mae'r adroddiadau Adran 19 wedi'u cyhoeddi gan Gyngor RhCT dros y misoedd diwethaf i glywed eu barn am yr adroddiadau. Mae'r mwyafrif helaeth o bobl wedi eu siomi gyda'r adroddiadau. Rwy'n siomedig o weld mai ychydig iawn o atebion neu sicrwydd y maent yn eu darparu i drigolion a busnesau a ddioddefodd llifogydd. Mae trigolion yn parhau i gysylltu â mi yn gofyn am gefnogaeth ac maen't wedi cael llond bol yn aros am atebion.

Os ydych yn byw yn un o'r cymunedau sydd wedi dioddef llifogydd, hoffwn wybod eich barn am yr adroddiadau. Gallwch wneud hyn drwy lenwi fy arolwg llifogydd drwy glicio ar y cod QR isod neu gallwch gysylltu â mi drwy e-bost.

Cyfarfod â Thrigolion

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau adran 19 ar gyfer Pontypridd a Nantgarw yn Ionawr, mis diwethaf cynhaliais gyfarfodydd cyhoeddus yn y cymunedau hyn. Yr ymateb gefais gan drigolion a busnesau ynglŷn â'r adroddiadau ymchwiliadau llifogydd yw nad ydynt yn rhoi'r atebion neu'r sicrwydd y bydd y cymunedau hyn yn ddiogel pe bai digwyddiad tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Fel rhan o'r cytundeb cydweithredu gyda Llywodraeth Cymru rwyf wedi sicrhau adolygiad annibynnol i'r llifogydd, ond ni all hyn ddechrau heb i'r holl adroddiadau adran 19 cael eu cyhoeddi. Byddaf yn parhau i bwyso ar Gyngor Rhondda Cynon Taf i gyhoeddi'r 9 adroddiad sy'n weddill ar gyfer yr ardaloedd isod fel y gallwn ddechrau rhoi'r mesurau atal llifogydd sydd eu hangen yn y cymunedau hyn o'r diwedd. Os na fydd yr adolygiad yn rhoddi'r atebion sydd eu hangen, byddaf hefyd yn parhau i ymgyrchu am ymchwiliad annibynnol llawn.

Busnes y Senedd

Galw am sefydlu Fforwm Llifogydd Cymru

Cefais gyfle i godi nifer o faterion y mae etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn a nhw yn y Senedd fis diwethaf, a gyda mis Chwefror yn nodidwy flynedd ers storm Dennis, mae nifer o etholwyr yn parhau i gysylltu â mi ar y mater pwysig o lifogydd.

Mae hyn yn fater sy'n effeithio cymunedau ledled Cymru, felly mis diwethaf gofynnais i'r Prif Weinidog gefnogi sefydlu Fforwm Llifogydd Cymru. Ar hyn o bryd nid oes sefydliad annibynnol yma yng Nghymru sy'n cefnogi cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd yn uniongyrchol, gan hefyd ddarparu cymorth ymarferol yn ogystal ag eirioli ar ran cymunedau pe bai llifogydd yn digwydd.

Mae'r Prif Weinidog wedi cytuno i drafodaethau pellach ar y mater hwn ac felly byddaf yn parhau i godi hyn yn y Senedd dros y misoedd nesaf.

Diogelu adeiladau hanesyddol

Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu a mi dros y misoedd diwethaf i rannu eu pryderon ynglŷn â'r cynnig presennol i ddymchwel hen Ysgol Ferched y Bont-faen. Cyflwynwyd dadl i'r Senedd i drafod y cynnig hwn. Gyda nifer o'm cyd-aelodau, mynegais fy siom bod adeiladau hanesyddol felyr ysgol hon yn cael eu dymchwel pan fodcyfle i ail-ddychmygu adeiladau hanesyddol i ddiwallu anghenion lleol. Rwyf yngobeithio y bydd y Llywodraeth a Cadw yn ailystyried y cynnig hwn.

Gallwch ddarllen fy nghyfraniad llawn yma.

Diwygio etholiadau lleol

Gydag etholiadau lleol yn agosáu roedd yn bleser cefnogi dadl Rhys Ab Owen AS ar ddiwygio etholiadol yn y Senedd fis diwethaf. Mae'r system cyntaf i'r felin wedi dyddio ac mae'n annog pobl i beidio pleidleisio dros yr ymgeisydd a allai fod yn ddewis cyntaf iddynt.

Os ydym am gael democratiaeth fwy cynrychioliadol, mae angen system bleidleisio fwy cyfrannol lle mae pob pleidlais yn cyfrif.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'm cyd-aelodau Plaid Cymru i frwydro dros ddemocratiaeth decach a mwy cynrychioliadol yma yng Nghymru.

Cefnogi dioddefwyr Stelcian

Fis diwethaf yn y Senedd cynhaliodd Plaid Cymru ddadl ar stelcian yn galw ar Lywodraeth Cymru i gwneud mwy i mynd i'r afael â'r broblem hon a sicrhau mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr.

Mae stelcian yn batrwm o ymddygiadau digroeso, sefydlog, obsesiynol ac ymwthiol gan un person tuag at berson arall, sy'n achosi ofn o drais a thrallod i'r unigolyn sydd yn cael eu targedu.

Gallwch ddarllen fy nghyfraniad llawn yma.

Uwchgynhadledd costau byw

Canol De Cymru

Fel y gwyddom ni oll, mae prisiau ynni, tanwydd a bwyd yn cynyddu'n aruthrol. Ynghyd a'r toriad i gredyd cynhwysol a caledi ariannol mae nifer yn ei wynebu yn sgil Covid, mae yna bobl ledled Cymru yn wynebu argyfwng costau byw. Yn anffodus, gwaethygu fydd hyn wrth i brisiau barhau i gynyddu.

Ar yr 17eg o Chwefror, cynhaliais uwch-gynhadledd yn Nhrefforest ar y pwnc hwn gan ddod a sefydliadau sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n wynebu sefyllfaoedd argyfyngus ynghyd, megis Cyngor ar Bopeth a banciau bwyd lleol

Fe wnaethom drafod sut y gallem gyd-weithio i sicrhau bod pawb yn derbyn y cymorth sydd ar gael iddynt, a'n bod yn cydweithio i sicrhau bod rhagor o gefnogaeth ar gael.

Gallwch wylio crynodeb o'n trafodaethau yn y fideo byr.



Cynllun 5 pwynt Plaid Cymru

Ar y run diwrnod, cyhoeddodd Plaid Cymru gynllun 5 pwynt i daclo'r argyfwng costau byw yng Nghymru:

1. **Helpu pobl gyda'u biliau ynni - drwy ehangu'r cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf i'r Gwanwyn.**
2. **Cefnogi plant a phobl ifanc - drwy gyflymu'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim a chynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg**
3. **Canslo dyled - ôl-ddyledion treth gyngor a dyled prydau ysgol**
4. **Cymorth gyda thai - trwy ymestyn y Grant Caledi Tenantiaeth a chapio codiadau rhent tai cymdeithasol a chynyddu'r gronfa taliadau tai yn ôl disgresiwn**
5. **Gwrthdroi'r toriad i Gredyd Cynhwysol – a datganoli pwerau dros les**

Dengys y cynllun pum pwynt sut y gellir mynd i'r afael â'r argyfwng yn uniongyrchol yma yng Nghymru, i helpu pobl gyda chostau cynyddol, i gapio biliau lle bo'n bosibl, ac i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i bobl mewn gwaith trwy gynyddu gofal plant am ddim.

Cyfarfod â'r tîm

Danny Grehan - Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned

Amanda Elis - Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned

Brooke Webb - Swyddog Cyfathrebu

Eleri Griffiths - Gweithiwr Achos

Elyn Stephens - Rheolwr Swyddfa

Ken Moon - Cydlynydd Dyfodol Cynaliadwy

Sut y gallwn helpu

Rwy'n cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd, i gynnig help a chefnogaeth i etholwyr.

Fe allaf i a fy nhîm helpu gyda amrywiaeth eang o faterion megis echyd, Tai, Trafnidiaeth, Addysg a'r Amgylchedd.

Os oes yna unrhyw beth y gallaf wneud i'ch helpu, cysylltwch i drefnu apwyntiad trwy ebost neu ffôn.

Cysylltwch â Heledd

01443 853214

Heledd.Fychan@Senedd.Cymru

2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ

Heledd Fychan AS / MS

@Heledd_Plaid

@Heledd_Plaid

Plaid Cymru
Party of Wales

Senedd Cymru
Welsh Parliament